ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG47205**

Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Newidiadau i Drefniadau Apelau Derbyn i Ysgolion

Ymgynghoriad ar gynigion i ganiatáu i apelau derbyn i ysgolion gael eu cynnal o bell yn ogystal ag yn bersonol (wyneb yn wyneb)

Ebrill 2023

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-711-7

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion i gynnwys opsiwn i apelau gael eu cynnal o bell yn ogystal ag yn bersonol, neu drwy gymysgedd o'r ddau. |
| **Camau gweithredu** | Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon. |
| **Gwybodaeth bellach** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill. |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:<br>Y Gangen Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau<br>Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: SchoolsManagementDivision3@llyw.cymru |
| **Copïau ychwanegol** | Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru<br>Dolen i'r dogfennau ymgynghori:<br>Newidiadau i drefniadau apelau derbyn i ysgolion \| LLYW. CYMRU |
| **Dogfennau perthnasol** | Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005<br>Cod Apelau Derbyn i Ysgolion 2013 |

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

# Cynnwys


Cyflwyniad 2

Crynodeb o’r ymatebion 3

Dadansoddiad o’r ymatebion i'r ymgynghoriad 3

Cwestiwn 1 3

Cwestiwn 2 4

Cwestiwn 3 5

Cwestiwn 4 6

Cwestiwn 5 6

Cwestiwn 6 7

Cwestiwn 7 8

Cwestiwn 8 8

Cwestiwn 9 9

Cwestiwn 10 10

Cwestiwn 11 10

Cwestiwn 12 11

Y camau nesaf 11

Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr 12

Atodiad B – Newidiadau technegol 13

# Cyflwyniad

Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 (Rheoliadau 2005) yn rhagnodi materion sy'n ymwneud ag apelau yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn plentyn i ysgol. Mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion (y Cod Apelau)[1] yn sicrhau bod apelau yn cael eu cynnal mewn ffordd deg a thryloyw. Mae Rheoliadau 2005 a'r Cod Apelau yn berthnasol i apelau derbyn ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn pobl ar ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2005, a'r Cod Apelau a gyhoeddwyd yn 2013, i gynnwys opsiwn i apelau gael eu cynnal o bell yn ogystal ag yn bersonol, neu drwy gymysgedd o'r ddau (hybrid).

Mae'r newidiadau arfaethedig yn gwneud rhywfaint o'r hyblygrwydd a gyflwynwyd drwy reoliadau dros dro, mewn ymateb i bandemig COVID-19, (yn fwyaf diweddar, Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) (Diwygio) 2021) a ddaeth i ben ar 30 Medi 2022, yn barhaol, gydag addasiadau priodol.
Mae'r newidiadau:

- yn cyflwyno'r gallu i gynnal gwrandawiadau apêl o bell yn ogystal ag yn bersonol, neu drwy gymysgedd o'r ddau (hybrid), gyda rhai cyfranogwyr yn ymuno yn bersonol a rhai eraill o bell
- yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau derbyn wneud y penderfyniad ynghylch p'un a ddylid cynnig gwrandawiadau apêl yn bersonol neu o bell, neu drwy gymysgedd o'r ddau (hybrid)
- yn cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gellir cynnal apelau yn gyfan gwbl dros y ffôn i ddim ond pan na fo modd defnyddio fideogynadledda am resymau'n ymwneud â chysylltedd neu hygyrchedd, a dim ond os yw'r apelydd a'r swyddog cyflwyno ill dau yn cytuno
- yn caniatáu i apelau gael eu penderfynu ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd dim ond pan fydd y swyddog cyflwyno a/neu'r apelydd yn methu bod yn bresennol, ond nid mewn amgylchiadau eraill.

Mae'r newidiadau yn berthnasol i'r ddau fath o wrandawiadau apelau derbyn yr ymdrinnir â nhw o dan y Cod Apelau: (apelau yn erbyn penderfyniad awdurdod derbyn i wrthod derbyn plentyn i'w hysgol, ac apelau gan gyrff llywodraethu yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol i dderbyn i'w hysgol blentyn sydd wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor).

Manteisiwyd hefyd ar y cyfle i ymgynghori ar nifer o fân newidiadau drafftio technegol i ddarpariaethau penodol yn y Cod Apelau presennol, gan gynnwys diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth.

[1] Y cod apelau derbyn i ysgolion

# Crynodeb o'r ymatebion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 18 Ionawr a 22 Mawrth 2023. Cawsom gyfanswm o 50 o ymatebion, 18 ohonynt gan awdurdodau lleol, 3 gan awdurdodau esgobaethol, 1 gan ysgol a 5 gan aelodau o banelau apelau derbyn. Cafwyd 7 ymateb arall gan sefydliadau eraill, gan gynnwys Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, Estyn, Comisiynydd Plant Cymru, UCAC, Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Roedd gweddill yr ymatebion yn ddienw. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd i'w gweld yn **Atodiad A**.

Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn gofyn am ymateb 'cytuno', 'anghytuno', neu 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', ynghyd ag unrhyw sylwadau ategol. Ni wnaeth pob ymatebwr ateb pob cwestiwn. Fodd bynnag, ystyriwyd yr holl ymatebion a atebodd o leiaf un cwestiwn neu a roddodd sylwadau ar y cynigion. Mae’r canrannau a ddangosir ym mhob un o'r tablau isod yn seiliedig ar y nifer a ymatebodd i'r cwestiwn penodol hwnnw. Nid yw'r crynodeb hwn yn gofnod hollgynhwysfawr o'r holl sylwadau a wnaed, ac nid yw’r ffaith na roddir sylw i fater penodol yn golygu ei fod wedi cael ei anwybyddu neu'n llai pwysig.

# Dadansoddiad o’r ymatebion i'r ymgynghoriad

Yn y crynodeb hwn rydym wedi dadansoddi’r ymatebion i'r ymgynghoriad ar sail y modd y cyflwynwyd y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori.

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

### Cwestiwn 1

A ydych chi'n cytuno y dylai Rheoliadau 2005 a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion gynnwys opsiwn ar gyfer cynnal apelau o bell?

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 46 | 98% |
| **Anghytuno** | 1 | 2% |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | 47 | 100% |

Roedd mwyafrif helaeth (98%) yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys opsiwn ar gyfer cynnal apelau o bell.

Rhoddodd 25 o ymatebwyr sylwadau, gyda llawer yn nodi manteision apelau o bell o ran arbed amser a chostau i awdurdodau lleol, apelwyr, awdurdodau derbyn ac aelodau panelau apêl, gan gynnwys trefnu a thalu am leoliadau, teithio i leoliadau, cost gofal plant a'r amser y mae'n rhaid i deuluoedd sy'n gweithio ei gymryd o'r gwaith i fynd i apêl.

Canfyddiad nifer o awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn, sydd â phrofiad o apelau o bell yn ystod pandemig Covid, oedd bod cymryd rhan mewn apêl o'u cartref yn llai brawychus i rieni a'u bod yn fwy cyfforddus gyda hynny. Dywedodd un awdurdod lleol eu bod yn ei chael yn anodd cael aelodau panelau, yr oedd llawer ohonynt yn oedrannus, i fod yn bresennol yn bersonol, oherwydd pryderon am ddal Covid neu afiechydon tymhorol eraill.

**Cwestiwn 2**

| A ydych chi'n cytuno bod y ffurfiau a ganlyn yn caniatáu ar gyfer gwrandawiad apêl teg a thryloyw? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ffurf** | **Wyneb yn wyneb** | **Cynhadledd ffôn** | **Cynhadledd fideo** | **Cyflwyniad ysgrifenedig** |
| Cytuno | 45 (96%) | 17 (37%) | 45 (96%) | 17 (36%) |
| Anghytuno | 1 (2%) | 17 (37%) | 1 (2%) | 16 (34%) |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 (2%) | 12 (26%) | 1 (2%) | 14 (30%) |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (96%) yn cytuno bod cynnal apelau wyneb yn wyneb neu o bell drwy gynhadledd fideo yn caniatáu ar gyfer gwrandawiad apêl teg a thryloyw.

Roedd yr ymateb ynghylch cynnal apelau drwy gynhadledd ffôn yn fwy cymysg, gyda 37% yn cytuno eu bod yn caniatáu gwrandawiad teg a thryloyw a 37% yn anghytuno. Y prif fater a nodwyd oedd y ffaith nad oedd panelau yn gallu gweld ymateb pobl na darllen iaith eu corff a chliwiau gweledol wrth geisio asesu'r angen am gymorth.

Er yn cydnabod pwysigrwydd gallu gweld a chlywed apelwyr, roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y gallai fod sefyllfaoedd eithriadol a phrin lle nad yw hynny'n bosibl, ac y byddai cyflwyniadau ffôn ac ysgrifenedig yn ddefnyddiol fel opsiwn arall pan nad oes modd cynnal cynhadledd wyneb yn wyneb neu fideo oherwydd amgylchiadau rhieni.

Roedd y Lleng Brydeinig Frenhinol yn croesawu’r gwahanol opsiynau o ran ffurf, gan dynnu sylw at y ffaith y dylid cynnig hyblygrwydd wrth ddelio ag aelodau'r Lluoedd Arfog, er enghraifft gallai fod yn anodd cael mynediad at gysylltiad rhyngrwyd dibynadwy ar gyfer cynhadledd fideo, ac felly efallai mai cynhadledd ffôn neu gyflwyniad ysgrifenedig yw'r opsiwn gorau ar gyfer rhieni mewn lleoliad penodol.

Pwysleisiodd un awdurdod lleol na fyddent yn cynnig gwrandawiad ffôn o bell oni bai bod angen gwneud hynny mewn argyfwng/ fel cynllun wrth gefn, er enghraifft os collir cysylltiad â'r we.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn bwrw ymlaen gyda’r newidiadau i Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) i gynnwys opsiwn i apelau gael eu cynnal o bell yn ogystal â wyneb yn wyneb. Bydd y Cod Apelau Derbyn yn adlewyrchu hyn. Nid yw gwrandawiadau

apêl yn gyfarfodydd cyhoeddus, ac nid oes angen iddynt gael eu cynnal mewn fforwm cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod rhai o'r pryderon a godwyd mewn perthynas â chynnal apelau dros y ffôn, a dyna pam rydym wedi yn cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gellir cynnal apelau yn gyfan gwbl dros y ffôn i ddim ond pan na fo modd defnyddio fideogynadledda am resymau'n ymwneud â chysylltedd neu hygyrchedd, a dim ond os yw'r apelydd a'r swyddog cyflwyno ill dau yn cytuno. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (77%) yn cytuno y dylid cyfyngu ar gynnal apelau drwy gynhadledd ffôn fel hyn (gweler yr ymateb i gwestiwn 4 isod).

O ran penderfynu ar apelau ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir yn unig, nodir y sefyllfa ym mharagraff 4.13 o God Apelau 2013. Nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i'r amgylchiadau cyfyngedig o ran penderfynu ar apelau ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig yn unig a nodir yng Nghod 2013 o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

**Cwestiwn 3i**

A ydych chi'n cytuno mai awdurdodau derbyn ddylai wneud y penderfyniad ynghylch a ddylid cynnig gwrandawiadau apêl yn bersonol, o bell neu roi’r dewis o’r naill neu'r llall i’r rhai sy’n dod i’r gwrandawiad? Os ydych yn anghytuno, awgrymwch pwy ddylai wneud y penderfyniad.

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cytuno | 27 | 63% |
| Anghytuno | 12 | 28% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 9% |
| **Cyfanswm** | 43 | 100% |

**Cwestiwn 3ii** - Pa ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddod i'r penderfyniad hwn?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (63%) yn cytuno mai'r awdurdodau derbyn ddylai wneud y penderfyniad ynghylch a ddylid cynnig gwrandawiadau apêl yn bersonol neu o bell, neu drwy gymysgedd o'r ddau. Roedd rhai o'r rheini a oedd yn anghytuno yn teimlo mai’r apelwyr ddylai wneud y penderfyniad.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar ffurf yr apelau i’w cynnig. Y ffactor a nodwyd fwyaf oedd dewis ffurf yr apelydd. Fodd bynnag, pwysleisiodd un ei bod yn hanfodol peidio â chael anghydfodau hir a llafurus am ffurf gwrandawiadau.

Pwysleisiodd sawl ymatebydd arall bwysigrwydd sicrhau bod y dechnoleg angenrheidiol ar gael i rieni os yw'r gwrandawiad i'w gynnal o bell er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais os nad oes ganddynt yr offer angenrheidiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) newydd 2023 yn darparu mai dim ond os bydd apelwyr ac awdurdodau derbyn yn gallu cyflwyno eu hachos yn llawn, ac os bydd gan bob unigolyn yr adnoddau electronig gofynnol y gall awdurdod derbyn benderfynu cynnal gwrandawiad apêl o bell neu'n rhannol o bell ac yn rhannol bersonol (hybrid).

**Cwestiwn 4**

A ydych chi'n cytuno y dylai apelau sy'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl dros y ffôn gael eu cyfyngu i adegau pan na fo modd defnyddio fideogynadledda am resymau'n ymwneud â chysylltedd neu hygyrchedd, a dim ond os yw'r apelydd a'r swyddog cyflwyno ill dau yn cytuno?

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 77% |
| Anghytuno | 5 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 13% |
| **Cyfanswm** | 47 | 100% |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (77%) yn cytuno y dylid cyfyngu ar apelau sy'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl dros y ffôn i adegau pan na fo modd defnyddio fideogynadledda am resymau'n ymwneud â chysylltedd neu hygyrchedd, a dim ond os yw'r apelydd a'r swyddog cyflwyno ill dau yn cytuno.

Er yn cydnabod mai trefniadau wyneb yn wyneb a thros fideo oedd orau, derbyniodd un ymatebwr y gallai fod senarios eithriadol lle gallai fod angen defnyddio cynadledda ffôn.

Roedd y Lleng Brydeinig Frenhinol yn croesawu’r syniad o gynnwys apelau ffôn, ond anogodd awdurdodau i ystyried rhesymau ychwanegol pan mai’r ffôn fyddai’r ffurf fwyaf priodol efallai, yn ogystal â chyfyngiadau hygyrchedd a chysylltedd. Er bod y Lleng yn cydnabod nad y ffôn yw'r ffurf orau bob amser, roeddent yn teimlo y dylid ystyried, os yw rhiant mewn lleoliad penodol neu'n gweithio mewn amgylchedd cyfyngedig, efallai na fydd yn briodol defnyddio cynhadledd fideo oherwydd GDPR neu ddiogelwch cenedlaethol. Dywedodd y Lleng y byddent yn annog awdurdodau lleol i fod yn hyblyg yn eu penderfyniad ynghylch defnyddio apelau ffôn ac ystyried amgylchedd gwaith ac ymrwymiadau unigryw bywyd yn y lluoedd arfog.

**Cwestiwn 5**

A ydych chi'n cytuno y dylai apelau ond gael eu hystyried ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd dan yr amgylchiadau a ganlyn:

a) nid yw'r swyddog cyflwyno yn bresennol, ac mae'r panel apêl yn fodlon y gall ddatrys yr achos drwy ddefnyddio’r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr awdurdod derbyn os na fydd hynny’n rhoi’r apelydd dan anfantais?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 26 | 58% |
| Anghytuno | 13 | 29% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 13% |
| **Cyfanswm** | 45 | 100% |

**neu**

b) mae'r apelydd yn peidio â dod neu'n methu dod i'r gwrandawiad ac mae'n anymarferol cynnig dyddiad arall?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 28 | 67% |
| Anghytuno | 6 | 14% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 8 | 19% |
| **Cyfanswm** | 42 | 100% |

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodir y sefyllfa ar apelau ysgrifenedig ym mharagraff 4.13 o God Apelau 2013. Nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i'r amgylchiadau cyfyngedig o ran penderfynu ar apelau ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig yn unig a nodir yng Nghod 2013 o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

**Cwestiwn 6**

A ydych chi'n cytuno y dylai gwrandawiadau apêl hybrid fod yn opsiwn? (Ystyr 'hybrid' yw pan fo un neu ragor o'r cyfranogwyr yn ymuno o bell drwy fideo neu dros y ffôn, ac un neu ragor ohonynt yn ymuno yn bersonol).

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 34 | 72% |
| Anghytuno | 9 | 19% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 9% |
| **Cyfanswm** | 47 | 100% |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (72%) yn cytuno y dylai gwrandawiadau apêl hybrid fod yn opsiwn. Roedd rhai'n croesawu'r hyblygrwydd roedd hyn yn ei gynnig, gydag un yn datgan y byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol i bobl a oedd yn byw mewn ardaloedd mwy gwledig.

Er yn cytuno y dylai cyfarfodydd hybrid fod yn opsiwn, pwysleisiodd un ymatebwr y dylid ystyried sut y gellid cefnogi'r apelydd fel nad yw dan anfantais mewn unrhyw

ffordd, er enghraifft os nad oedd ganddo fynediad at gyfleusterau fideogynadledda addas. Dywedodd eraill y dylid sicrhau bod y dechnoleg sydd yn ei lle yn gweithio'n iawn ac o safon dderbyniol.

Pwysleisiodd y rhai a oedd yn anghytuno neu a oedd yn ansicr y byddai angen i'r dechnoleg gefnogi hyn, ac y byddai angen ymdrin â'r apêl yn effeithiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) newydd 2023 yn darparu y caiff yr awdurdod derbyn benderfynu y bydd apêl yn cael ei phenderfynu ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynir os na all naill ai'r swyddog cyflwyno neu'r apelydd fod yn bresennol ar ddyddiad y gwrandawiad.

**Cwestiwn 7**

A ydych chi'n cytuno y gellir cynnal gwrandawiad apêl hybrid mewn ffordd deg a thryloyw sy'n galluogi'r swyddog cyflwyno a'r apelydd i gyflwyno eu hachos?

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 74% |
| Anghytuno | 6 | 13% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 13% |
| **Cyfanswm** | 47 | 100% |

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (72%) yn cytuno y dylai apelau hybrid fod yn opsiwn. Roedd 74% o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai apelau hybrid gael eu cynnal mewn ffordd deg a thryloyw. Mater i awdurdodau derbyn fydd penderfynu a ddylid defnyddio'r hyblygrwydd hwn ai peidio.

Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) newydd 2023 yn darparu mai dim ond os gall y partïon gyflwyno eu hachos yn llawn, ac os oes gan bob cyfranogwr fynediad at yr adnoddau electronig i ganiatáu hyn y gall awdurdod derbyn benderfynu cynnal gwrandawiad apêl o bell neu gyfarfod hybrid.

**Cwestiwn 8** (ar gyfer awdurdodau lleol)

A ydych chi'n cytuno y bydd y Cod Apelau arfaethedig yn arwain at gostau/arbedion newydd i awdurdodau lleol? Esboniwch pam a pha amcangyfrif y gellir ei wneud o'r costau/arbedion ychwanegol hyn - gall hyn gynnwys, er enghraifft, trefniadaeth, staffio, lleoliadau, teithio a thechnoleg.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 24 | 80% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 17% |
| **Cyfanswm** | 30 | 100% |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (80%) yn cytuno y byddai arbedion newydd i awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys amser a chost trefnu a thalu am leoliadau, costau teithio a threuliau eraill, ac amser o’r gwaith a gymerir gan staff ac apelwyr i fynd i apelau, gan gynnwys lle clywir sawl apêl mewn un diwrnod. Nododd un awdurdod lleol gostau monitorau aelodau panelau apêl yn ystod pandemig Covid, ond dywedodd fod yr arbedion a gyflawnwyd yn gwneud iawn am hyn.

Gofynnwyd i awdurdodau lleol egluro pa amcangyfrif y gellir ei wneud o'r costau/arbedion ychwanegol hyn. Nododd un awdurdod lleol y byddent, cyn y pandemig, yn talu cyfradd o £200 y dydd ar gyfartaledd i ddarparwyr annibynnol am ystafelloedd cynadledda. Roedd yna gostau ychwanegol ar ben hyn, gan gynnwys costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r panelau. Yn ddiweddar bu'n rhaid i'r un awdurdod archebu ystafell gynadledda mewn lleoliad annibynnol ar gyfer gwrandawiad deuddydd a gostiodd £800 iddynt i gyd. Amcangyfrifodd awdurdod arall arbedion o sawl mil o bunnau'r flwyddyn, yn seiliedig i raddau helaeth ar gostau teithio, heb gynnwys arbedion costau teithio i apelwyr.

Dywedodd un awdurdod lleol arall fod costau teithio a chynhaliaeth aelodau panelau yn cael eu lleihau'n ddramatig, gan wneud iawn am gost monitorau a brynir ar gyfer aelodau panelau i gysylltu â'u cyfrifiadur/gliniadur eu hunain. Mae hyn wedi arwain at arbed 75% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y 3 blynedd diwethaf.

Mae'r amcangostau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau derbyn gynnal apelau o bell yn ogystal ag wyneb yn wyneb neu drwy gymysgedd o'r ddau (hybrid), gyda rhai yn cymryd rhan o bell ac eraill wyneb yn wyneb.  Nid ydym yn gosod unrhyw ofynion ychwanegol ar awdurdodau derbyn. Mater i’r awdurdod derbyn yw penderfynu p’un a ddylid cynnal apelau o bell. Nid oes dyletswydd ar awdurdodau derbyn i gynnal apelau o bell. Gwnaeth awdurdodau derbyn drefnu apelau o bell yn ystod pandemig Covid-19, a nododd llawer ohonynt arbedion amser a chostau o ganlyniad.

**Cwestiwn 9** (ar gyfer ysgolion)

A ydych chi'n cytuno y bydd y Cod Apelau arfaethedig yn arwain at unrhyw gostau/arbedion i ysgolion? Esboniwch pam a pha amcangyfrif y gellir ei wneud o'r costau/arbedion ychwanegol hyn.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 13 | 46% |
| Anghytuno | 3 | 11% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 12 | 43% |
| **Cyfanswm** | 28 | 100% |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (46%) yn cytuno y bydd y Cod Apelau arfaethedig yn arwain at arbedion i ysgolion, er bod 43% yn anghytuno.

Tynnodd un awdurdod esgobaethol sylw at y ffaith y byddai arbedion i ysgolion (*sy'n gweithredu fel eu hawdurdodau derbyn eu hunain*), gan gynnwys amser a chost trefnu lleoliadau, costau teithio i'r gwrandawiad i staff a'r swyddog cyflwyno, ynghyd â chostau cyflenwi ychwanegol i ryddhau staff ac amser teithio i fynd i apelau.

Tynnodd ymatebwr arall sylw at y ffaith bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu digon o arian i ysgolion gynnal apelau, ond y gallai rhai ysgolion weld ostyngiad yn eu costau, yn enwedig lle mae ganddynt benaethiaid sy'n addysgu, gan y bydd cyfarfodydd ar-lein yn golygu bod yr aelodau staff perthnasol yn treulio llai o amser i ffwrdd o'r ysgol, ac y bydd angen llai o staff cyflenwi felly.

**Cwestiwn 10**

Gwnaed mân newidiadau drafftio technegol i'r Cod Apelau drafft i sicrhau ei fod yn gyfredol - mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth, codau ymarfer addysgol eraill ac enwau adrannol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu unrhyw sylwadau ar y newidiadau arfaethedig. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r gwelliannau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae rhai newidiadau technegol pellach wedi eu gwneud i'r Cod Apelau er mwyn adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys diweddaru'r Cod i adlewyrchu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Rydym hefyd wedi cynnwys rhagor o wybodaeth am y Ddeddf Cydraddoldeb a dyletswyddau penodol i Gymru, gan gyfeirio at y Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb ar gyfer cyngor arbenigol ar wahaniaethu a hawliau dynol. Gwnaed nifer o newidiadau eraill i gywiro gwallau teipio neu ramadegol. Rhestrir y rhain yn y tabl yn Atodiad B.

**Cwestiwn 11**

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynnig i ganiatáu i wrandawiadau apêl gael eu cynnal o bell neu yn bersonol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cawsom 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nododd 13 o'r rhai a ymatebodd, a oedd yn cynnwys 11 awdurdod lleol, na fyddai'r opsiwn i gynnal apelau o bell yn cael

unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gan y byddai cyfleusterau cyfieithu yn cael eu darparu yn ôl yr angen, p'un a oedd pobl yn ymuno â’r apêl yn bersonol neu o bell.

Roedd naw o'r rhai a ymatebodd yn teimlo y byddai effaith gadarnhaol gan fod cyfieithu ar y pryd yn haws ar-lein. Tynnodd un awdurdod lleol sylw at y ffaith y byddai'r gallu i gynnal apelau o bell yn golygu bod mwy o aelodau eu panelau sy’n siarad Cymraeg ar gael gan y byddai llai o'u hamser yn mynd ar deithio i leoliadau.

Roedd dau ymatebwr yn teimlo y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol drwy sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu o'r ansawdd uchaf ar gael fel bod modd cynnal y gwrandawiadau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn unol â dymuniadau'r sawl sy'n cymryd rhan. Awgrymodd un y defnydd o feddalwedd â gwasanaeth cyfieithu. Awgrymodd un arall recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg neu ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

**Cwestiwn 12**

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r polisi arfaethedig i ganiatáu cynnal gwrandawiadau apêl o bell neu yn bersonol gael ei lunio neu ei addasu er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau a dderbyniwyd:**

Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r dogfennau ynghylch apelau derbyn ei gwneud yn glir y gall unrhyw gyfathrebu, gan gynnwys apelau, boed o bell neu yn bersonol, fod drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Dylid darparu cyfleusterau cyfieithu addas er mwyn sicrhau y gall hyn ddigwydd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Cod Apelau wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu Safonau'r Gymraeg.

## Y Camau Nesaf

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o’u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r ymatebion wedi'u hystyried wrth ddatblygu Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Diwygio) (Cymru) 2023. Bydd Rheoliadau drafft 2023 yn cael eu gosod gerbron y Senedd ar 12 Ebrill 2023, ac mae disgwyl iddynt ddod i rym ar 3 Mai 2023.  Bydd y newidiadau yn weithredol unwaith y daw Rheoliadau 2023 i rym. Mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion drafft yn adlewyrchu'r Rheoliadau, a bydd yn cael ei osod gerbron y Senedd ac yn dod i rym maes o law.

## Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Sir Caerdydd

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir Casnewydd

Cyngor Sir Powys

Ysgol Brynhyfryd

Archesgobaeth Caerdydd

Esgobaeth Llandaf a Sir Fynwy

Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Estyn

Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Comisiynydd Plant Cymru

Dewisodd yr ymatebwyr eraill fod yn ddienw.

**Atodiad B – Newidiadau Technegol**

| **Lleoliad** | **Newid** | **Rheswm am y newid** |
|---|---|---|
| Adran 1 | Para1.4 | Newid i'r Saesneg yn unig. |
| Adran 2 | Para 2.10 | Er bod y frawddeg ganlynol wedi'i chynnwys yn y drafft ar gyfer ymgynghoriad, nid oedd wedi'i chynnwys yn y rhestr o welliannau technegol: "Dylai awdurdodau derbyn ystyried pa le sydd i gydlynu hyfforddiant a bydd ALlau a chyrff llywodraethu ysgolion yn cael budd o rannu gwybodaeth ac arferion da â'i gilydd. |
| Adran 3 | Para 3.11 | Mewnosod y gair "y" yn y frawddeg, h.y. **Dylai'r** swyddog cyflwyno osgoi cyswllt â'r panel yn absenoldeb **y** partïon eraill. |
| Adran 4 | Para 4.5 | Rydym wedi cyfeirio at baragraff 4.13 mewn perthynas â'r amgylchiadau cyfyngedig pan all apelau ysgrifenedig ddigwydd, h.y. Mae'n arbennig o bwysig i ALlau a llywodraethwyr roi gwybod i apelwyr bod ganddynt hawl, ni waeth a yw'r apelau'n cael eu cynnal o bell ynteu yn bersonol, i wneud sylwadau llafar yng ngwrandawiad eu hapêl *(ond gweler paragraff 4.13)*, ac mai dyma'u cyfle i wneud yn siŵr bod y panel apêl yn gwbl ymwybodol o holl ffeithiau eu hachos cyn iddo benderfynu. |
| Adran 4 | Para 4.6 | Rydym wedi ymestyn y paragraff hwn i gyfeirio at y Gymraeg a hygyrchedd mewn perthynas â thechnoleg. |
| Adran 4 | Para 4.8, pwynt bwled 2 | Diwygio 'a' i 'i', h.y. Nodi a oes unrhyw dystion wedi'u gwahodd i roi tystiolaeth yn y gwrandawiad (gweler paragraffau 4.17 **i** 4.19). |
| Adran 4 | Para 4.13 | Rydym wedi cynnwys cyfeiriadau at fynediad o bell a gwrandawiadau hybrid, wedi darparu diffiniadau o'r rhain yn y troednodyn ac wedi cynnwys troednodyn ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| Adran 5 | Para 5.13, pwynt bwled 2 | Newid y geiriau 'â threfniadau' i 'â'r trefniadau', h.y. Lle derbynnir disgyblion i'r chweched dosbarth yn llwyr ar sail gallu neu ddawn arbennig ac y byddai derbyn disgybl yn anghydnaws **â'r trefniadau** derbyn ar sail dethol fel hyn. |
| Adran 5 | Paragraff 5.19 1(c) a phwynt 2 | Newid i'r Saesneg yn unig. |
| Adran 6 | Para 6.14, pwynt bwled 1 | Diwygio'r gair "iawn" i "anghywir" a dileu'r geiriau "a/neu".<br><br>*Ni all Gweinidogion Cymru adolygu na gwrthdroi penderfyniadau paneli apêl annibynnol unigol, ond gallant ystyried arfer eu pwerau ymyrryd:*<br><br>• *os oedd y panel wedi'i gyfansoddi'n anghywir gan yr awdurdod derbyn*<br>• *os yw'r awdurdod derbyn wedi gweithredu'n rhesymol o ran rhoi swyddogaethau ar waith gyda golwg ar y broses apêl neu wedi methu â chyflawni unrhyw* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *ddyletswydd gyfreithiol yng nghyswllt y broses honno, e.e., o ran llunio cyfansoddiad y panel neu o ran gweithredu'n groes i ddarpariaeth orfodol y Cod hwn.* |
| Adran 6 | Para 6.15 | Ailosod geiriad o God 2013. Er bod hyn yn ymddangos yn A.28 hefyd h.y. 6.15 Dim ond lle bydd yr apelwyr neu'r awdurdod derbyn wedi llwyddo yn eu cais am Adolygiad Barnwrol ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw y gall y llysoedd wrthdroi penderfyniad panel apêl. |
| Atodiad A | Paragraff A.7, pwynt bwled 1 | Ychwanegu 'lleol', h.y. awdurdod lleol. |
| Atodiad C | Paragraff C.18 (2) a'r troednodyn | Egluro'r diffiniad o blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal a dderbynnir y tu allan i rownd derbyn arferol i ysgolion. |
| Geirfa | | Mae diffiniad o fynediad o bell wedi'i gynnwys. |